Lesley Griffiths AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig
Cabinet Secretary for Energy, Planning and Rural Affairs

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mick Antoniw
Cadeirydd y Pwyllgor
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

5 Rhagfyr 2018

Annwyl Mick,

Ar ôl ymddangos ger bron y Pwyllgor ar 5 Tachwedd, rwy'n ysgrifennu i roi atebion manylach i gwestiynau'r Pwyllgor am Fil Amaeth y DU.

Dywedais yn glir yn ystod y sesiwn craffu na fyddwn yn argymell bod y Cynulliad Cenedlaethol yn rhoi ei gydsyniad i'r Bil tan y caiff yr holl bwyntiau eu datrys - yn enwedig yr ardoll ar gig coch a chymalau'r WTO.

Mae'n dda gen i ddweud wrth y Pwyllgor fod mater yr ardoll cig coch wedi'i ddatrys yn foddhaol erbyn hyn. Cafodd y gwelliant gefnogaeth y Llywodraeth ac mae bellach yn rhan o'r Bil. Rwy'n fodlon ei fod yn adlewyrchu'r trefniadau yng Nghymru ar gyfer casglu'r ardoll a bod yr hen broblem ynghylch ailwladoli'r ardoll cig coch bellach wedi'i datrys.

O ran rheolau'r WTO, rwyf wedi cael trafodaethau adeiladol â'r Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig. Mae'r swyddogion wrthi'n cymryd camau breision i ddatrys y mater hwn hefyd. Rwy'n gobeithio y cawn gytundeb fydd yn bodloni egwyddorion y Cytundeb Rhynglywodraethol ac yn parchu'r setliad datganoli. Efallai na fydd angen diwygio'r Bil ei hun i'r perwyl hwn. Gallai canlyniad boddhaol fod yn bosibl trwy sicrhau cytundeb rhwng y ddwy Lywodraeth ynghylch y trefniant presennol. Rwy'n gobeithio y gallwn ddod i gytundeb â Llywodraeth y DU ar y mater hwn. Byddaf wedyn yn gallu argymell bod y Cynulliad yn rhoi ei gydsyniad yn fuan.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Gofynnodd y Pwyllgor imi ystyried a oes angen 'cymal machlud' ar gyfer darpariaethau Cymreig y Bil. Byddaf wrth reswm yn parhau i feddwl am hyn wrth i Senedd San Steffan a'r Cynulliad barhau i graffu ar y Bil. Fodd bynnag, fy nod o hyd yw iddynt fod yn bwerau pontio ac i Fil Amaeth Cymru eu disodli gan ddefnyddio'r fecanwaith gyfreithiol fwyaf addas i wneud hynny ar yr adeg briodol.

Fel y gofynnoch, amgaeaf y datganiad ar y cyd a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar 12 Medi ynghylch datblygu fframweithiau cymorth amaethyddol. Gan fod amaethyddiaeth yn faes datganoledig, y pwynt allweddol yw y caiff pob gweinyddiaeth yn y Deyrnas Unedig (DU) gyfle i ddatblygu polisi sy'n addas i'w hamgylchiadau ar ôl i'r DU adael yr UE. Caiff y gwaith fynd yn ei flaen trwy'r trefniant llywodraethu mwyaf priodol ar yr adeg briodol. Cyfarfu Fforwm y Pedwar Gweinidog y tro diwethaf yng Nghaerdydd ar 19 Tachwedd i ystyried datblygiad y fframweithiau ar draws y portffolio. Mae'r pedair Gweinyddiaeth wedi cytuno i fwrw ymlaen â chryfhau'r trefniadau a'r strwythurau llywodraethu, gan gynnwys Fforwm presennol y Pedwar Gweinidog, cyn bod y DU yn gadael yr UE.

I gloi, nodais bryderon y Pwyllgor ynghylch adroddiad y Pwyllgor Pwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheoleiddio ar Fil Amaeth y DU. Hoffwn sicrhau'r Pwyllgor fy mod wrthi'n rhoi ystyriaeth ddwys i'r adroddiad gyda Llywodraeth y DU a byddaf yn ymateb i'r pwyntiau a godir, fel ag sy'n arferol, wrth i'r Bil fynd trwy Dŷ'r Arglwyddi.

Cofion,

Lesley Griffiths AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig
Cabinet Secretary for Energy, Planning and Rural Affairs